Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd : | Rheolwr Lletygarwch | Lleoliad : | Gwersyll yr Urdd, Llangrannog |
| Adran : | Cegin a Glanhau, Llangrannog | Cyflog : | Graddfa 6: £34,866 - £40,685 y flwyddyn |
| Oriau Gwaith : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | Cytundeb : | Swydd barhaol |
| Yn adrodd i : | Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd, Llangrannog | Rheolaeth Llinell : | Staff yr adran Cegin a Glanhau |

## Prif bwrpas y swydd:

Mae'r swydd yn hanfodol i rhediad a gofal cwsmer gwersyll.

1. Rheoli ac arwain tîm o staff llawn amser, rhan amser ac achlysurol yr Adran Arlwyo a Glanhau gan gymell, hyfforddi ac annog perfformiad gan yr holl staff, ynghyd a recriwtio staff o fewn cyllideb.
2. Sicrhau bod swyddogaethau arlwyo a glanhau yn cael eu cyflawni i'r safonau uchaf. Arolygu gwasanaeth arlwyo a glanhau y gwersyll.
3. Sicrhau safonau Iechyd a Diogelwch yr adran a bod gweithdrefnau'r adran yn addas.
4. Cyfrannu at barhau i ddatblygu'r gwersyll fel aelod o'r tîm rheoli.

Mae'r gwersyll yn weithredol 7 diwrnod yr wythnos, ac ar gyfartaledd 50 wythnos y flwyddyn. Croesawir dros 25,000 o wersyllwyr yn flynyddol ar gyrsiau preswyl.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Rheoli Staff Adran Arlwyo a Glanhau

- Rheoli timoedd Adran Arlwyo a Gegin Gwersyll yr Urdd Llangrannog. Mae hyn yn cynnwys – trefnu rota, dosrannu oriau, caniatáu gwyliau gan ddefnyddio systemau mewnol yn ogystal a systemau Adnoddau Dynol CIPHR yr Urdd.
- Cynnal cyfarfodydd misol gyda staff yr adran a pharatoi cofnodion i ddosbarthu i Reolwyr eraill y Gwersyll.
- Recriwtio ac anwytho staff newydd.

2. Rheoli adnoddau'r adran a glanweithdra adeiladau'r safle

- Cynnal archwiliadau cyson o adeiladau'r Gwersyll i sicrhau hylendid, glanweithdra a safon cyfarpar, adeiladau, a gosodiadau y Gwersyll.

- Cynllunio, threfnu a rheoli prosiectau cyfalafol yn dilyn archwiliadau ar draws adrannau i godi a chynnal safonau uchel, gan ddilyn polisi pwrcasu'r Urdd.
- Rheoli cytundebau cwmnïau a gwasanaethau arlwyo/glanhau sydd wedi eu cytundebu gan Wersyll yr Urdd Llangrannog a chadw o fewn gyllideb.

3. Iechyd a Diogelwch

- Sicrhau fod yr adrannau yn bodloni a chydymffurfio a'r holl anghenion iechyd a diogelwch, deddfwriaeth diogelwch bwyd, alergeddau ac anoddefiad bwyd ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.
- Sicrhau sgôr o 5 gan Asiantaeth Safonau Bwyd.
- Cynllunio, datblygu ac adolygu systemau, gweithdrefnau, asesiadau risg yn rheolaidd.
- Ysgrifennu polisïau alergeddau ac anghenion bwyd yn benodol i'r Gwersyll, gan fonitor, gwerthuso a chadw cofnod o gynhwysion bwyd.
- Monitro fod staff yn gweithredu yn effeithiol systemau dadansoddi peryglon sy'n hanfodol i ddiogelwch bwyd (HACCP) archwilio cywirdeb dogfennau HACCP.

4. Hyfforddi

- Cynllunio rhaglen hyfforddi a datblygu adran gan sicrhau fod staff yn gymwys.
- Hyfforddi ac achredu staff yr Urdd mewn Hylendid Bwyd Lefel 2/3 a Alergedd ac Anoddefiad Bwyd.
- Creu incwm ychwanegol i'r adran wrth gynnig hyfforddiant i sefydliadau allanol.
- Hyfforddiant mewnol i staff newydd a phrentisiaid y dyfodol.

5. Ariannol

- Cynllunio rhaglen gwariant yr adran o ran bwyd, cyfarpar, deunyddiau ac adnoddau o fewn cyllideb oddeutu £300,000.
- Rheoli system pwrcasu a negyddu.
- Monitro a phrosesu incwm ychwanegol a ddaw trwy ddefnydd cyhoedd partïon/cynadleddau/gwasanaeth glanhau allanol.

6. Cyffredinol / Arall

- Cynllunio bwydlenni wythnosol, bwydlenni anarferol, a bwydlenni partïon arbennig.
- Sicrhau lefel uchel o ofal cwsmer.
- Cynghori a rhannu gwybodaeth berthnasol gydag adrannau eraill yr Urdd.

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Profiad sylweddol o reoli staff a rheoli cyllideb o oleuaf £200,000.<br>2. Profiad sylweddol o weithio mewn cegin brysur (oleuaf 300 'cover' y dydd), ac yn dangos sgiliau coginio o safon uchel.<br>3. Profiad o reoli a threfnu gofal cwsmer o safon uchel i gynulleidfaoedd gwahanol e.e. grwpiau o blant, teuluoedd, grwpiau crefyddol.<br>4. Dealltwriaeth eang o systemau diogelwch bwyd.<br>5. Cymwysterau Diogelwch bwyd Uwchradd / Ganolradd, HACCP, Cymhwyster Arwain / Rheoli Tîm, Iechyd a Diogelwch, Cymorth Cyntaf, Epipen.<br>6. Dealltwriaeth am anghenion bwyd arbennig - alergeddau, diet diwylliannol.<br>7. Agwedd proffesiynol, hunan gymhelliant a threfnus.<br>8. Yn rhugl yn y Gymraeg. | 1. Profiad o werthuso eiddo o ran pryd a gwedd a rheoli prosiectau cyfalafol.<br>2. Sgiliau cyfrifiadurol da iawn.<br>3. Profiad o asesu risg.<br>4. Cymwysterau Iechyd a Diogelwch ehangach. |

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**:** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

## CRYNODEB O'R TELERAU, AMODAU AC BUDDIANNAU

**(**ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Rheolwr Lletygarwch |
| Cyfnod prawf: | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| Gwiriad GDG: | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). |
| Archwiliad meddygol: | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| Cyflog: | Penodir ar Bwynt 1 ar y raddfa berthnasol, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. Yn Ebrill bob blwyddyn, bydd staff fel arfer yn symud un pwynt oddi mewn i'r raddfa gyflog hyd nes y byddant yn cyrraedd pwynt 4. Mae hyn ar yr amod bod aelod o staff yn gyflogedig gan y mudiad ar 31ain o Ragfyr a heb gyrraedd pen y raddfa. |
| Gwyliau blynyddol: | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus.  Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi: | Arwahan i'ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i'r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr |
| Diwrnod Pen-blwydd: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, rhoddwn yr hawl i staff gymryd diwrnod eu Pen-Blwydd i ffwrdd fel diwrnod o wyliau blynyddol. Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Lles: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, wedi cyfnod o 6 mis yn y swydd ac ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus, rhoddwn yr hawl i staff gymryd 1 diwrnod y flwyddyn fel Diwrnod personnol i'w Lles.<br>Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |

| | |
|---|---|
| Profion Llygaid: | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| Yswiriant Bywyd: | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| Disgownt i staff: | Mae modd cael gostyngiad o:<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- Tocynnau i Eisteddfod yr urdd |
| Cynllun Beicio: | Wedi pasio eich cyfnod prawf llwyddiannus bydd modd i staff elwa o gynllun Beicio'r Urdd, sy'n gynllun aberthu cyflog mewn cydweithrediad gyda CycleScheme. Yn ddibynnol ar eich graddfa, gellir prynu beic ac /neu offer gwerth hyd at £3,000. |
| Pensiwn: | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| Cinio am ddim: | Ar hyn o bryd, cynigwn ginio cynnes am ddim i holl staff sy'n gweithio yn y gwersylloedd neu yn ymweld a'r gwersylloedd. |